

Pwyllgor Cynllun Busnes

Cofnodion Pwyllgor Cynllun Busnes gyfarfu am 7pm, nos Iau, Tachwedd 19eg, 2015 yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.

1. Yn bresennol y Cynghorwyr Aled Lloyd Evans, Cadeirydd; Marian Evans; Dafydd Williams; Ifor W Davies a'r Clerc.
2. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor gynhaliwyd ar Hydref 22ain, 2015.
3. Materion yn codi o'r cofnodion. Trafodwyd y taflenni oedd wedi cael eu paratoi ar union wariant y Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf dan y penawdau sydd yn llyfr cyfrifon y Cyngor ac roedd taflenni Drafft o Gyllideb wedi cael eu paratoi. Penderfynwyd paratoi taflen fwy cyfredol sef yr union wariant hyd yma eleni a'r taliadau fydd angen eu gwneud o hyn tan ddiwedd y flwyddyn ariannol 2015/16 cyn gosod cyllideb blwyddyn 2016/17 i'w chyflwyno o flaen y Cyngor llawn. Mae'r Clerc angen hyfforddiant ar ddefnyddio rhaglen Excel fyddai yn gwneud ei waith ariannol yn llawer haws ac argymhellwyd y byddai'r Cyngor yn barod i dalu am yr hyfforddiant.

Un cais dderbyniwyd ar ôl gofyn i'r Cynghorwyr ydynt yn ymwybodol o unrhyw waith sydd angen ei wneud gan y Cyngor yma yn eu wardiau sef atgyweirio arwydd dynodi'r Lôn Goed ger Coed Cae Du. Mae Cyngor Gwynedd wedi addo gwneud y gwaith yma.